

**Y Gweinidog Addysg**  
Llywodraeth Cymru  
5ed Llawr  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd CF99 1NA

5 Hydref 2020

Annwyl Weinidog,

### **Parthed: Capasiti ysgolion i ymdopi â dysgu cyfunol**

Ysgrifennaf atoch – ar Ddiwrnod Rhyngwladol yr Athrawon - i fynegi fy mhryder difrifol ynghylch yr amgylchiadau sy'n wynebu athrawon Cymru ar hyn o bryd.

Gwyddom fod yr amgylchiadau yn sgil y pandemig Covid-19 yn rhai eithriadol o heriol, a bod pawb ar draws y system addysg wedi cyd-dynnu i wneud eu gorau dros y disgyblion, dros eu cymunedau, a thros a'u cydweithwyr.

Gan ei bod hi'n amlwg y byddwn yn cyd-fyw â'r feirws am fisoedd i ddod, mae UCAC o'r farn bod angen inni greu trefn o weithio sydd mor sefydlog â phosib (er gwaetha'r amgylchiadau gwbl ansefydlog) yn hytrach na bod mewn sefyllfa o drefniadau argyfwng parhaol.

Rydym yn gwybod mai natur yr ansefydlogrwydd mewn ysgolion yw'r anhawster i ragweld pa ddisgyblion a pha staff fydd yn yr ysgol, a pha rai ohonynt fydd adre'n hunan-ynysu neu'n sâl. At hynny, mae criw nid ansylweddol o ddisgyblion sydd wedi dewis peidio dychwelyd i'r ysgol ers mis Medi; y ffigyrau presenoldeb wythnosol cyfartalog uchaf hyd yma yw 81.1%<sup>1</sup>.

O ganlyniad, mae consensws eang mai dysgu cyfunol yw'r ffordd ymlaen er mwyn sicrhau, gymaint ag sy'n bosib, bod parhad a dilyniant i'r addysgu er gwaethaf absenoldebau disgyblion a staff o'n hysgolion.

**Mae'n gwbl glir i ni nad yw'n ymarferol bosib i athrawon fod yn dysgu wyneb-yn-wyneb yn yr ysgol, ac yn paratoi ac yn darparu gwaith i wneud adre a/neu ddysgu ar-lein - naill ai'n fyw neu wedi'i recordio.**

Mae angen cydnabod y ffeithiau canlynol:

- nid yw'r gweithlu cyfan yn holliach ac ar gael i weithio ar hyn o bryd
- mae baich trwm o ddyletswyddau ychwanegol 'logistaidd' ar yr athrawon a'r arweinwyr sy'n bresennol mewn ysgolion (e.e. glanhau, dyletswydd egwyl/cinio, dyletswydd croesawu/bws) sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud eu priod waith, heb sôn am ddysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth hefyd

---

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/presenoldeb-plant-yn-ysgolion-gynhelir-yng-nghymru-7-medi-1-hydref-2020-dros-dro>

Mae capasiti llawer ehangach o fewn y system addysg na staff ysgolion yn unig, ac rydym wedi ein darbwylllo mai nawr yw'r amser i edrych yn ofalus ar sut orau i ddefnyddio'r capasiti hwnnw.


Mae athrawon cyflenwi yn un opsiwn amlwg, ac mae wir angen sicrhau eu bod nhw'n cael eu trin yn deg o ran tâl ac amodau gwaith, a gyda pharch a gofal o safbwynt trefniadau iechyd a diogelwch. Yn naturiol, rhaid sicrhau nad yw ysgolion unigol ar eu colled yn ariannol oherwydd yr angen i gyflogi staff cyflenwi – neu'n teimlo nad oes modd iddynt wneud hynny oherwydd sefyllfa ariannol yr ysgol.

Yn ogystal, mae llawer o athrawon cymwys yn gweithio yn y consortia rhanbarthol, rhai mewn awdurdodau lleol (mewn rhai ardaloedd), yn ogystal ag yn Estyn. Er bod rhannu deunyddiau ac arfer dda o gymorth, ac yn cael ei werthfawrogi, nid yw'n mynd i'r afael â'r diffyg capasiti ar gyfer ymgymryd â'r dasg anferth hon.

Fel undeb, gwyddom nad mater rhwydd yw adleoli staff neu newid natur a thelerau eu gwaith. Fodd bynnag, teimlwn yn gryf bod angen rhoi ystyriaeth fanwl ac o ddifrif i sicrhau bod capasiti a threfniadaeth ddigonol i sicrhau addysg gyson, ddi-dor i ddisgyblion am weddill y tymor ysgol hwn a thu hwnt, a bod y cyfrifoldeb dros wneud hynny yn cael ei rannu mewn modd sy'n rhesymol ac yn effeithiol.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb ac at drafodaeth bellach ar y mater, a hynny gyda chryn brys.

Yn gywir,



Dilwyn Roberts-Young  
Ysgrifennydd Cyffredinol